Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 14 Ionawr 2014**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(171)v6

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**Cwestiwn Brys**

**William Graham (Dwyrain De Cymru)** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cydlynu gwaith y gwasanaethau brys ag adrannau eraill y Llywodraeth, asiantaethau a gwasanaethau gwirfoddol wrth fynd i'r afael â'r tywydd garw a'r llifogydd?

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3 Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol: Cyfeirio'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) at y Goruchaf Lys (30 munud)

### 4 Datganiad gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon: Gwasanaethau Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru (30 munud)

### 5 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Rhoi Polisi Amaethyddol Cyffredin newydd ar waith (30 munud)

### 6 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar y Bil Plant a Theuluoedd mewn

**perthynas â diwygio adran 98(1) o'r Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (30 munud)**

NDM5383 Gwenda Thomas (Castell-nedd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Plant a Theuluoedd sy'n ymwneud â diwygiadau i adran 98(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Rhagfyr 2013 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii).

I weld copi o'r Bil ewch i:
Dogfennau'r Bil — Y Bil Plant a Theuluoedd [Tŷ'r Arglwyddi] 2012-13 i 2013-14 — Senedd y DU (Saesneg yn unig)

Dogfennau Ategol
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Nodyn Cyngor Cyfreithiol

**7 Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Diwygiadau Canlyniadol) 2014 (15 munud)**

NDM5395 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Diwygiadau Canlyniadol) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Tachwedd 2013.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Diwygiadau Canlyniadol) 2014
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

**8 Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2014 (15 munud)**

NDM5392 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth

Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Rhagfyr 2013.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2014
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**Cynnig i atal Rheol Sefydlog 11.16 i ganiatáu i'r eitem nesaf o fusnes gael ei drafod (5 munud)**
NDM5400 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal y rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r cynnig o dan eitem 9 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ar ddydd Mawrth 14 Ionawr 2014.

**9 Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2014 (15 munud)**
NNDM5396 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Ionawr 2014.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2014
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**10 Dadl: Setliadau Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol ar gyfer 2014-15 (60 munud)**

NDM5393 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988:

Yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2014-2015 (Setliad Terfynol - Cynghorau), a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Ionawr 2014.

**Dogfennau Ategol**
Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2014-2015 (Setliad Terfynol - Cynghorau) (Saesneg yn unig)

**11 Dadl: Yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2012-13 (60 munud)**

**NDM5394 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r cynnydd a gyflawnwyd o safbwynt hybu cydraddoldeb a chynhwysiant yn 2012-13, fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Gydraddoldeb, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 13 Rhagfyr 2013.

**Dogfen Ategol**
Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Gydraddoldeb

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i hybu'r gwaith o ddatblygu polisïau yn y gweithle yng nghyswllt cam-drin domestig ar gyfer gweithwyr yn y sector cyhoeddus.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai fod gan bobl sydd wedi dioddef troseddau rhyw yn eu herbyn yr hawl i wybod pryd y mae'r sawl a ymosododd arnynt yn cael ei ryddhau o gaethiwed, gan gynnwys amodau'r rhyddhau hwnnw, ac y dylai'r hawl hwn gael ei gynnwys yn y Bil arfaethedig, y Bil Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen i sicrhau bod gwasanaethau cymorth ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol o safon gyson ac ar gael ledled Cymru.

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried cyflwyno Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig i Bobl Anabl fel yr un sydd wedi'i chyflwyno gan Lywodraeth y DU.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 15 Ionawr 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 9 Ionawr 2014 i'w hateb ar 14 Ionawr 2014

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y difrod a achoswyd i amddiffynfeydd gan lifogydd diweddar? OAQ(4)1418(FM)

2. **Lynne Neagle (Torfaen)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith diwygio lles ar dlodi yn Nhorfaen? OAQ(4)1424(HSS)

3. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer gwella cyfleoedd i blant a phobl ifanc yn Nyffryn Clwyd ar gyfer 2014? OAQ(4)1411(FM)

4. **Leighton Andrews (Rhondda)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gofio rhan Cymru yn y Rhyfel Byd Cyntaf? OAQ(4)1426(FM)

5. **William Graham (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am dderbyn cleifion i ysbytai yn Nwyrain De Cymru dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd? OAQ(4)1422(FM)

6. **Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am raglenni cyfalaf awdurdodau lleol? OAQ(4)1419(FM)W

**7. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi a hybu chwaraeon yng Nghymru? OAQ(4)1410(FM)

**8. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau iechyd meddwl y tu allan i oriau yng Nghymru? OAQ(4)1419(FM)

**9. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau y caiff canlyniadau'r holl dreialon clinigol eu cyhoeddi? OAQ(4)1420(FM)

**10. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatgan dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer creu swyddi yng Nghymru yn ystod 2014? OAQ(4)1408(FM)

**11. Julie James (Gorllewin Abertawe):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ddathlu canmlwyddiant geni Dylan Thomas eleni? OAQ(4)1412(FM)

**12. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei ymweliad diweddar ag Uganda? OAQ(4)1423(FM)

**13. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lefelau nyrsio mewn ysbytai yng Nghymru? OAQ(4)1427(FM)

**14. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lifogydd yng ngogledd Cymru? OAQ(4)1414(FM)

**15. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau effeithlonrwydd ynni cartref yng Nghymru? OAQ(4)1417(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dydd Mawrth 21 Ionawr a dydd Mercher 22 Ionawr 2014
Dydd Mawrth 28 Ionawr a dydd Mercher 29 Ionawr 2014
Dydd Mawrth 4 Chwefror a dydd Mercher 5 Chwefror 2014
********************************************************************

Dydd Mawrth 21 Ionawr 2014

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cynlluniau Newid Gwasanaethau Hywel Dda (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Perfformiad Llywodraeth Leol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Gwella Perfformiad Ynni Adeiladau yng Nghymru (30 munud)
- Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Taliadau Gan Gynghorau Plwyf, Cynghorau Cymuned ac Ymddiriedolwyr Siarter) 2013 (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ynghylch y Bil Plant a Theuluoedd mewn perthynas â rheoleiddio deunydd pacio manwerthu cynhyrchion tybaco, rheoli cynhyrchion tybaco eu hunain a chreu troseddau cysylltiedig (45 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ynghylch y Bil Plant a Theuluoedd mewn perthynas ag adran 38 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963 (Perfformiadau) (30 munud)
- Dadl ar sicrhau mynediad gwell at ein treftadaeth a'n diwylliant (60 munud)

Dydd Mercher 22 Ionawr 2014

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 16.3 i addasu cylch gwaith a theitlau pwyllgorau (5 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar yr Ymchwiliad i Entrepreneuriaeth ymysg Pobl Ifanc (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Leanne Wood (Canol De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 28 Ionawr 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Cynnydd ar Wella Caffael Cyhoeddus (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Adolygiad Annibynnol o Gydnerthedd Ffermio (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Bolisi Trafnidiaeth (30 munud)

**Dydd Mercher 29 Ionawr 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar yr Ymchwiliad i Bolisi Ynni a Chynllunio yng Nghymru – Adroddiad Dilynol (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Eluned Parrott (Canol De Cymru) (30 munud)

Dydd Mawrth 4 Chwefror 2014

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (300 munud)
  Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.
  Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.
- Dadl Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (5 munud)

Dydd Mercher 5 Chwefror 2014

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Darren Millar (Gorllewin Clwyd) (30 munud)